

Rhif 399 Rhyddiaith Bl 4 ac iau (D)
Testun- Diwrnod Da
Beirniad – Elisabeth Casey

Rhif 399/16 - Lego Ninja: D 76304

Da iawn Lego Ninja.

'Rwyd ti wedi ysgrifennu darn sylweddol yma am dy ddiwrnod da sef dydd Nadolig ac 'rwyd ti wedi cyfleu'r cyffro y diwrnod arbennig hwnnw'n dda iawn.

....rhai anrhegion mawr a rhai anrhegion bach. Roeddwn i'n hapus ac yn gyffrous.

'Rwyd ti wedi defnyddio pragraffau yn effeithiol wrth sôn am yr anrhegion i ddechrau, wedyn disgrifio Cinio Nadolig yn yr ail baragraff a thrafod gweddill dy ddiwrnod yn y paragraff olaf. 'Rwyd ti'n gallu mynegi dy farn a rhoi rheswm am hynny.

Dw i ddim yn hoffi mynd am dro achos mae'n ddiflas.

'Rwyd ti hefyd wedi defnyddio ymadroddion effeithiol.

Roeddwn i'n llawn dop. roedd yn ddoniol iawn.

Gwaith cywir a thaclus Lego Ninja.

Rhif 399/1 - Star Stella: D 20114

Da iawn Star Stella.

Fe wnes i fwynhau darllen am dy ddiwrnod arbennig yng Nghaerdydd yn fawr iawn.

'Rwyd ti wedi ysgrifennu'r darn yn gywir iawn ar y cyfan . 'Rwyd ti wedi treiglo'n ofalus.

...gyda mam a fy nghyfnither Kristal.

...cawson ni bicnic.

'Rwyd ti wedi amrywio dy frawddegau, weithiau yn dechrau gyda berf, weithiau gydag ymadrodd:

Prynodd Kristal sgarff las a prynodd mam clustdlysau arian.

I bwdin ces i....

Yn y prynhawn aethon ni i siopa...

'Rwyd ti'n gallu mynegi barn yn syml:

Dw i'n dwlu ar siopa.

Mae'n amlwg dy fod yn mwynhau dy fwyd Star Stella!

'Rwyn hoffi'r sylw:

Diolch mam a Kristal!!

wrth i ti gloi'r darn.

Rhif 399/19 - Sianco : D 25415

Gwaith da iawn Sianco.

'Rwyt ti wedi llwyddo i ysgrifennu'r darn hwn yn gywir iawn gan sillafu, atalnodi a threiglo'n ofalus:

Bwytais i frechdan gaws a chreision...

...aethom ymlaen gyda cherdded lan y mynydd.

'Rwyt ti hefyd wedi paragraffu'n effeithiol wrth osod yr olygfa, sef y daith yn y paragraff cyntaf, sôn am ddigwyddiadau e.e. Roedd Llewellyn wedi cwmpo... yn yr ail baragraff, cael cinio yn y trydydd paragraff, wedyn y trafferthion ac yn gorffen gyda phryd o fwyd blasus yn y paragraff olaf.

Trueni dy fod ddim wedi cyrraedd copa'r mynydd Sianco - y tro nesa efallai!

Rhif 399/2 - Ariel : D 20125.

Ymdrech dda Asriel.

Rwyt ti wedi disgrifio dy ddiwrnod arbennig yn fanwl iawn wrth ddechrau amser brechwast:

Dihunais i am chwech o'r gloch a bwytais i Shreddies i

Frecwastac yn cloi'r darn ar ôl llawer o ddigwyddiadau yn ystod y dydd:

Es i'r gwely wedi blino!

'Rwyt ti wedi bod yn brysur iawn wrth sôn am y ras gyfnewid, y cinio yn McDonald's, yna ymweld â'r parc thema.

Fe gest ti gyfle i fynegi barn wrth ddisgrifio'r bwyd yn McDonald.

Roedd e'n hyfryd.

Hefyd 'rwyt ti wedi defnyddio ansoddeiriau addas:

...rolycoster enfawr..

a cheisio treiglo:

...Rowan fy mrawd...

Da iawn Asriel.

Rhif 399/8 - GWY123 : D63698

'Rwyt ti wedi mwynhau sgwrsio gyda Mr. Urdd, mae'n amlwg, ac wedi darganfod bod Mr. Urdd yn hoffi siopa ac ei fod yn hoffi yfed dŵr.

'Rwyt ti wedi llwyddo i ysgrifennu yn yr amser gorffennol yn gywir:

Beth wnest ti?

Es i i siopa

'Rwyt ti hefyd wedi mynegi barn a rhoi rheswm:

Dw i'n hoffi siopa achos mae'n llawer o hwyl.

Gobeithio y byddi di'n cystadlu eto blwyddyn nesa GWY 123

Rhif 399/14 - Superted : D 25441

Ymdrech dda Superted

'Rwyt ti wedi ysgrifennu'n gywir iawn wrth ddisgrifio dy ddiwrnod arbennig yn y Ganolfan Hamdden, ac 'rwyt ti wedi trefnu dy ddarn yn daclus:

I ginio bwytais i...

Ar ôl cinio, aethon ni....

Yn y nos, aethon ni...

Rwyt ti'n gallu ysgrifennu yn y gorffennol gan ddenyddio amryw o ferfau yn person cyntaf a'r trydydd:

Es i i' ganolfan hamdden...

...aethon ni i newid.

Cefais i hwyl.

'Rwyt ti wedi atalnodi'n dda ac hefyd yn gallu mynegi barn a rhoi rheswm

Roeddwn i'n caru'r sleid achor roedd e'n gyflym iawn.

Dw'n hoffi bowlïo deg achos mae'n gyffrous.

Gwaith da Superted.

Rhif 399/18 - Bob : D25416

Diwrnod da Ymdrech dda Bob.

Mae'n amlwg dy fod wedi mwynhau pwll nofio'r gwesty yn fawr iawn, ac 'rwyt ti wedi disgrifio'r gweithgareddau yn fanwl :

Roeddwn i'n cerdded trwy'r rhaeadr achos roedd hi mor boeth.

Pam oedd Charlie yn dod lawr y llithren fe wnaeth e splash fawr.

'Rwyt ti wedi ysgrifennu'n gywir iawn gan amrywio brawddegau:

Ar ôl cyrraedd..., Wedyn es i...

ac hefyd wedi mynegi barn yn effeithiol:

...i bwdin cefais i lawer o hufen iâ a dwi'n dwlu ar hufen iâ.

'Rwyt ti wedi mynegi cyffro'r diwrnod yn dda Bob.

Rhif 399 / 20 - Blodyn Haul : D 25405

Ymrech dda iawn Blodyn Haul.

'Rwyt ti wedi llwyddo i gyfleu digwyddiadau dy ddiwrnod arbennig yn gywir iawn. Mae'r paragraffu'n effeithiol, pob un yn disgrifio gweithgaredd gwahanol yn daclus. Hefyd 'rwyd ti'n disgrifio pethau yn fanwl iawn:

...gwisgais i siwmpwr, het, menyg, cot, trowsus hir a sanau cynnes.

Nodwyd dy fod wedi atalnodi'n ofalus yn y frawddeg hon. Roeddwn i'n hoffi disgrifiad y rolercoaster wrth iddo fe droi:

Rownd a rownd a rownd!

gyda defnydd effeithiol o'r ebychiad, ac roddet ti'n ddoniol wrth ddisgrifio dy fam yn cwmpo!

Fe wnes i fwynhau darllen am dy ddiwrnod da yn fawr iawn Blodyn Haul.

Rhif 399 / 6 - Pogba - D64802

Yn wir, y cest ti a Mr. Urdd diwrnod arbennig iawn wrth wyllo'r pêl-droed yn y stadiwm. 'Rwyt ti wedi darganfod llawer am Mr. Urdd drwy ysgrifennu'r ddeialog yma - y ffaith ei fod yn hoffi nofio, yn hoffi pêl-droed ac am ei hoff fwydydd.

'Rwyt ti wedi ysgrifennu mwyafrif y darn yn y gorffennol drwy holi cwestiwn ac ymateb ac ar y cyfan yn gywir iawn:

Gwelaist ti'r peldroed?

Do, bendigedig.

Beth fwytaist ti?

Ces i siocled, brechdan a creision.

'Rwyn hoffii'r :

Da iawn bois!

ar y diwedd.

A fyddi di'n chwarae i Man U. y tymor nesa tybed?

Ymdrech dda Pogba.

Rhif 399/9 - Cacen : D64720

'Rwyd ti wedi ysgrifennu'r sgwrs yma yn syml ond yn gywir iawn Cacen.
'Rwyd ti wedi rhoi trefn ar ddiwrnod Mr. Urdd ac hefyd wedi defnyddio geirfa gyfoethog fel 'anhygoel' Defnyddiaist ti amryw o ferfau yn y gorffennol:
Bwytais i, Yfais i, Nofiais i, chwaraeais i.
'Rwyd ti wedi mynegi barn yn syml a rhoi rheswm dros dy farn hefyd:
Dw i'n hoffi nofio hefyd achos mae'n hwyl.

Ymdrech dda.

Rhif 399/7- Y bos : D17208

Ar ôl yr holl drafferthion, dw i ddim yn rhy siŵr y cafodd Mr Urdd diwrnod da - druan â fe!!!
'Rwyd ti wedi ysgrifennu'r darn ar ffurf sgwrs sydd wedi dy helpu i roi trefn ar dy feddyliau.
'Rwyd ti wedi ysgrifennu'r mwyafrif yn y gorffennol ac wedi llwyddo i ddefnyddio brawddeg negyddol yn gywir:

...doeddwn i ddim wedi torri asgwrn.

Rhaid i ti gystadlu eto y flwyddyn nesa Y bos.

Rhif 399 / 5 - Lillie Jade : D64801

'Rwyd ti wedi darganfod llawer am Mr. Urdd wrth i ti sgwrsio gyda fe Lillie Jade.
'Rydyn ni'n gwybod ei fod yn hoffi melon, pop a gwin a bod 19 o anifeiliaid anwes a Mam a Dad gyda fe.
'Rwyd ti wedi ysgrifennu'r mwyafrif yn y gorffennol drwy ddefnyddio cwestiwn ac ateb:
Beth yfaist ti?
Yfais i gwin a bop ac hefyd wedi defnyddio'r ffurf feddiannol:

Oes gyda ti anifeiliaid anwes?

Oes.....

Ymdrech dda.

Rhif 399 / 4 - Fearn : D46605

'Rwyd ti wedi meddwl am siâp Mr. Urdd sef siâp triongl, ac 'rwyd ti Fearn wedi bod yn greadiol wrth gymharu siâp Mr.Urdd â siâp y Pyramidiau, wrth iddo ymweld â'r Aifft. 'Rwyd ti'n cario ymlaen ar yr un trywydd drwy ddatgelu bod Mr Urdd wedi bwyta dairylea a Toblerone! Da iawn ti:
Bwytais i dairylea

Beth wnest ti nesaf?
Prynais i Toblerone.
'Rwyd ti wedi ysgrifennu'r ddeialog yn gywir iawn.
Ymdrech dda

Rhif 399 / 12 - Ronaldo : D71713

'Rwyd ti wedi ysgrifennu'r ddeialog yma yn syml ond yn gywir gan ddefnyddio yr amser gorffennol gan mwyaf:

Pwy welaist ti?
Yn y gêm, gwelais i Cristiano Ronaldo a Dybala.

'Rwyd ti' n mynegi barn yn effeithiol ac yn rhoi rheswm am dy farn hefyd:

Fy hoff chwaraewr ydy Cristiano Ronaldo a Alexis Sanchez
achos mae llawer o sgiliau gyda fe...ond mae Cristiano Ronaldo
yn mynd yn grac pan mae e'n colli.

Diwrnod cyffrous iawn!
Wyt ti'n meddwl y byddi di'n dal i chwarae i Real Madrid y tymor nesaf Ronaldo?

Ymdrech dda Ronaldo.

Rhif 399/3 - Speedster: D75641

Gwaith da Speedster.
Yn wir, cafodd Mr Urdd diwrnod i'r brenin!
'Rwyd ti wedi ysgrifennu'r sgwrs yn yr amser amherffaith a'r amser gorffennol yn gywir iawn:

...ces i ddiwrnod ffantastig ddoe
Pam oedd hi'n ddiwrnod ffantastig?
Roedd hi'n....achos es i i wyllo rygbi...

'Rwyd ti hefyd wedi defnyddio ambell i frawddeg bwyslais er mwyn amrywio'r ysgrifennu:

Fe ydy'r asgellwr.

Mae nifer o enghreifftiau o fynegi barn yn y darn:

Mae e'n dda achos mae e'n gyflym.
Dw i'n hoffi'r Sgarlets achos maen nhw'n gwisgo coch.

Rhaid i ti cystadlu eto y flwyddyn nesa Speedster.

Rhif 399/10 - Reis : D17250

Gwaith da Reis.

Druan â Mr Urdd 'rwyn siwr ei fod yn teimlo'n dost ar ôl bwyta'r holl siocled 'na.

'Rwyt ti wedi bod yn glyfar iawn wrth ysgrifennu'r darn hwn. 'Rwyt ti wedi cymharu siâp Mr Urdd â siâp triongl Toblerone yn effeithiol dros ben!

Dyma fy hoff siocled ac mae e siâp triongl.

Dw i'n hoffi Toblerone achos dw i'n hoffi pethau trionglog!

'Rydyn ni'n dilyn hynt Mr Urdd i'r Swistir, ac 'rwyt ti wedi defnyddio llawer o ansoddeiriau e.e.Toblerone tywyll, Toblerone siocled ac 'rwyt ti hefyd wedi cymharu ansoddeiriau:

Mae e'n bellach na Lloegr.

'Rwy'n hoffi'r ebychiadau, sef :

Da iawn ti! O'r diwedd! ... a bant â fi i'r Swistir!
Toblerone ym mhobman!

'Rwyt ti hefyd wedi treiglo'n gywir iawn drwy'r darn.
Rhaid i ti gystadlu eto y flwyddyn nesa.

Rhif 399/13 - D75H - D75640

Ymdrech dda.

Roedd yn ddiddorol darllen dy sgwrs gyda Mr. Urdd , wrth iddo fe ddisgrifio ei ymweliad â chastell Henllys. Roeddwn i hefyd yn hoffi'r 'tynnu coes' ar y dechrau wrth i chi anghytuno am fynd i nofio:

I'r pwll nofio? Nage! Dw i ddim yn hoffi nofio achos mae'n wastraff amser.

Wastraff amser? Na, mae nofio'n fendigedig achos dw i'n hoffi cadw'n heini.

Druan â Mr Urdd dydy e ddim y siâp cywir i nofio:

Mae coesau bach a breichiau bach gyda fi.

'Rwyt ti'n cael y cyfle yma i ddisgrifio ac i fynegi barn yn effeithiol iawn.

Hefyd 'rwyt ti' n amrywio dy frawddegau:

Mae eisiau 'arm bands' arnat ti!

Gwaith cywir iawn. Gobeithio y byddi di'n cystadlu y flwyddyn nesa hefyd.

Rhif 399/11 - Dŵd Roblox : D60634

Cafodd Mr. Urdd diwrnod cyffrous iawn yn Llundain!

Drwy ofyn nifer o gwestiynau iddo fe 'rwyt ti wedi darganfod llawer am ei ymweliad â'r ddinas:

Cwl, beth wyt ti'n mynd i wneud yn Llundain?

Dw i'n mynd i weld y London eye... a sea world
...a wedyn dwi'n mynd i siopa yn Hamleys.....

Yn y sgwrs 'rwyt ti wedi cael cyfle i fynegi barn:

Llunain achos mae'n ddiddorol.

Diddorol hefyd oedd sôn am Mr Urdd yn bwyta tost a chaws triongl, yr union siâp â fe ei
hun!

Ymdrech dda Dŵd Roblox.